WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad Corfforaethol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 573A2011

# Ynglŷn ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cefnogwyd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan Jane Holownia, Alastair McQuaid a Nick Selwyn i gynnal yr Asesiad Corfforaethol a chynhyrchu'r adroddiad hwn.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Argymhelliad | 5 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Gwnaed rhywfaint o gynnydd tuag at wneud gwelliannau allweddol, ond os na chaiff anghysonderau a gwendidau o ran sut y caiff y Cyngor ei redeg eu delio â nhw, mae hi'n anhebygol y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella'n ddigonol | 6 |
| Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran rheoli'r broses wella | 6 |
| Nid yw rhai systemau llywodraethu allweddol yn gyson effeithiol o ran herio perfformiad gwael a sicrhau atebolrwydd | 10 |
| Mae'r gwendidau yn y trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd yn atal y Cyngor rhag gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau | 14 |
| **Atodiadau** | |
| Atodiad 1: Yr Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor | 19 |
| Atodiad 2: Cynnydd o ran y cynigion ar gyfer gwella o Asesiad Gwella 2010 | 21 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, adroddiad beirniadol iawn ar ansawdd y gwasanaethau addysg lleol a ddarperir i bobl ifanc gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor). Dyfarniad cyffredinol yr Arolygwyr oedd 'anfoddhaol' a dyfarnwyd bod y gallu i wella yn 'anfoddhaol' hefyd. O ganlyniad, tynnodd Llywodraeth Cymru bwerau Gweithredol y Cyngor yn ôl gan benodi Comisiynwyr Addysg i fod yn gyfrifol am wasanaethau addysg. Oherwydd y methiannau corfforaethol posib a amlygwyd gan adroddiad Estyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau corfforaethol y Cyngor sy'n cefnogi'r broses o gynllunio a chyflawni gwelliannau yn holl swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor.

Ein casgliad cyffredinol yw: **Gwnaed rhywfaint o gynnydd tuag at wneud gwelliannau allweddol, ond os na chaiff anghysonderau a gwendidau o ran sut y caiff y Cyngor ei redeg eu delio â nhw, mae hi'n anhebygol y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella'n ddigonol.**

Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran rheoli'r broses wella;
- nid yw rhai systemau llywodraethu allweddol yn gyson effeithiol o ran herio perfformiad gwael a sicrhau atebolrwydd;
- mae'r gwendidau yn y trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd yn atal y Cyngor rhag gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

Mae ardal Blaenau Gwent yn wynebu llawer o heriau. Mae'n gymharol fach o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, a cheir lefelau uchel o amddifadedd a dibyniaeth ac anghenion cymhleth. Ond nid yw'r ffactorau hyn yn egluro'r perfformiad gwael nac yn ei esgusodi. Er bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol da ar waith ar y cyfan i gefnogi'r broses wella, mae gwendidau hirsefydlog o ran sut y caiff y Cyngor ei redeg a hanes o fethiannau o ran arweinyddiaeth a darparu gwasanaethau yn tanseilio effeithiolrwydd y trefniadau corfforaethol hynny ac yn arwain at anghysondeb o ran sut y caiff polisïau a gweithdrefnau eu cymhwyso'n ymarferol. Mae'r methiannau hyn yn parhau i lesteirio gallu'r Cyngor i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni gwelliannau sylweddol a chynaliadwy ar gyfer ei ddinasyddion.

Ers adroddiad arolygu beirniadol Estyn, bu arweinyddiaeth wleidyddol gwasanaethau'r Cyngor yn ansefydlog. Ymddiswyddodd Arweinydd y Cyngor ddechrau mis Hydref 2011. Ganol mis Hydref etholwyd Arweinydd newydd o blith y grŵp llywodraethu a chytunodd y grŵp llywodraethu a grŵp yr wrthblaid y dylid cynnig tair swydd ar y Weithrediaeth a chadeiryddiaeth dau Bwyllgor Craffu i'r wrthblaid. Nid yw'r trefniadau hyn wedi'u profi hyd yma.

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau allweddol am ddyfodol gwasanaethau ond hyd yma nid yw wedi wynebu rhai gwendidau sylfaenol o ran y ffordd y caiff y Cyngor ei redeg na mynd i'r afael â hwy. Ni fydd y Cyngor yn gallu cyflawni gwelliannau ar y raddfa a'r cyflymder sy'n angenrheidiol yn sgîl y cynnydd yng ngalwadau'r cyhoedd am wasanaethau ochr yn ochr â'r lleihad mewn arian cyhoeddus, oni bai bod aelodau etholedig a swyddogion yn cydweithio er mwyn gwneud y canlynol:

- cymryd mwy o gyfrifoldeb a darparu arweinyddiaeth wleidyddol ar y cyd, sy'n effeithio;
- darparu arweinyddiaeth rheolaethol mwy dealladwy er mwyn sicrhau cysondeb gwell yn y trefniadau llywodraethu allweddol;
- llywio newidiadau diwylliannol;
- mynd i'r afael â thanberfformiad;
- targedu adnoddau er mwyn cyflawni blaenoriaethau cliriach.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, o ganlyniad i raddfa a chyflymder angenrheidiol y gwelliannau, nid yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.**

# Argymhelliad

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhelliad ar gyfer gwella o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), a nodir hyn isod. Rhaid i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i argymhellion statudol o fewn 30 diwrnod gwaith.

| **Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, rhaid i Cyngor wneud y canlynol:** | |
| --- | --- |
| A1 | Datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad hwn ar yr Asesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru. |

# Adroddiad manwl

## Gwnaed rhywfaint o gynnydd tuag at wneud gwelliannau allweddol, ond os na chaiff anghysonderau a gwendidau o ran sut y caiff y Cyngor ei redeg eu delio â nhw, mae hi’n anhebygol y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella’n ddigonol

### Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran rheoli'r broses wella

#### Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd sy'n gosod y sylfeini ar gyfer gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â materion pwysig

**1.** Mae'r Cyngor wedi dangos y gall wneud rhai penderfyniadau anodd a gwleidyddol sensitif ynglŷn â pha wasanaethau a ddarperir ganddo a sut mae'n darparu'r gwasanaethau hynny a ph'un a yw'n cydweithio ag eraill i gyflawni gwelliannau ar gyfer dinasyddion. Roedd gwneud y penderfyniadau hyn yn golygu herio safbwyntiau a dulliau gweithredu cyffredin a hirsefydledig. Arweiniodd y penderfyniadau hyn hefyd at wrthwynebiad brwd gan randdeiliaid amrywiol, gwleidyddion lleol a dinasyddion ym Mlaenau Gwent. Mae'r penderfyniadau hyn oll yn mynd i'r afael â materion sylweddol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau â'u potensial i gyflawni gwelliannau ar gyfer dinasyddion yn y dyfodol. Nodir rhai enghreifftiau o'r penderfyniadau hyn isod.

**2.** Roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd yn gallu gwneud buddsoddiad o £111 miliwn, sef y lefel a oedd yn angenrheidiol i wella'i stoc tai a chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Felly, yn dilyn proses hirfaith o ymgynghori ac ymgysylltu â thenantiaid a rhanddeiliaid, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai yn llwyddiannus i Tai Cymunedol Tai Calon ar 26 Gorffennaf 2010.

**3.** Er mwyn moderneiddio'r gwasanaethau gofal a ddarperir, mae'r Cyngor yn gweithredu ei bolisi o gau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ac ailffocysu gwasanaethau ar ddarparu cymorth i gynnal annibynniaeth pobl hŷn. Ym mis Tachwedd 2006, cytunodd y Cyngor ar strategaeth 15 mlynedd ar gyfer pobl hŷn, sef 'Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent'. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar ddatblygu ystod o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd ar draws y fwrdeistref sirol ac yn seiliedig ar ardaloedd. Roedd gweithredu'r strategaeth yn golygu bod rhaid i'r Cyngor benderfynu cau ei bedwar cartref gofal a datblygu darpariaeth arbenigol newydd fwy modern, yn bennaf drwy ddarparu tai gofal ychwanegol. Caeodd y Cyngor ei gartref gofal cyntaf yn 2008, a chaeodd ei ail gartref gofal ym mis Medi 2010. Mae cam cyntaf y ddarpariaeth tai gofal ychwanegol wedi'i agor, mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar yr ail gam yn dilyn cau'r ddau gartref gofal olaf.

4. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysg, mae'r Cyngor wedi gweithredu ei raglen o gau ysgolion ac atgyfnerthu ei ddarpariaeth chweched dosbarth. Mae'r cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda i fynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion oherwydd lleihad mewn niferoedd y disgyblion ac i wella cyflwr asedau addysg y Cyngor. Ym mis Medi 2010 penderfynodd y Cyngor ad-drefnu ei ysgolion a chau dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd yn ardal Glynebwy. Bydd cyfleuster newydd o'r radd flaenaf gwerth £51 miliwn ar safle'r Gweithfeydd yng Nglynebwy yn cymryd lle'r ysgolion hyn, gan ddarparu amgylchedd dysgu newydd sbon i ddisgyblion o dair oed i addysg uwch. Bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2012.

5. Yn ogystal, bydd y Parth Dysgu, sef campws chweched dosbarth ac addysg bellach newydd Coleg Gwent ar gyfer myfyrwyr o bob rhan o Flaenau Gwent sy'n 16 ac yn hŷn, hefyd yn agor ar safle'r Gweithfeydd ym mis Medi 2012. Bydd y campws newydd hwn yn cymryd lle'r ddarpariaeth chweched dosbarth ym Mrynmawr, Glynebwy a Thredegar. Arweiniodd gwrthwynebiad brwd gan rieni ac athrawon yn Ysgol Brynmawr at adolygiad barnwrol o gyfreithlondeb cynlluniau'r Cyngor. Ym mis Mawrth 2011 dyfarnodd yr Uchel Lys o blaid cau'r unedau chweched dosbarth a dyfarnu costau i'r Cyngor.

6. Roedd y penderfyniadau dadleuol eraill a wnaed ac a weithredwyd yn ddiweddar gan y Cyngor yn cynnwys newid i gasglu gwastraff bob pythefnos a phennu dirwyon am dorri polisïau gwahanu gwastraff y Cyngor; diffodd rhai goleuadau stryd penodol; cau theatr sy'n cael ei redeg gan y Cyngor a'u hadleoli i safle'r Gweithfeydd; a gwneud cynnydd tuag at integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn llawn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Mae'r Cyngor yn datblygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae cynlluniau ar waith i wella ei drefniadau cyfredol er mwyn galluogi dinasyddion i helpu i lunio gwasanaethau mewn cymunedau lleol yn y dyfodol

7. Mae systemau effeithiol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i ystyried, trafod a gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Mae a wnelo ymgysylltu â'r cyhoedd â lleisio barn ar y penderfyniadau cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn helpu arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall persbectif, barn a phryderon dinasyddion a rhanddeiliaid. O'u rhoi ar waith yn llwyddiannus, mae prosesau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys yr aelodau hynny o'r gymuned nad yw eu lleisiau wedi'u clywed yn draddodiadol mewn trafodaethau gwleidyddol a thrafodaethau ar bolisi.

8. Canfuwyd gennym, o ran ei ddull o ymgysylltu, fod y Cyngor yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid ac mae'n datblygu ffyrdd o wella trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ymhellach. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei flaenoriaethau, ar sail ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ac wrth ddatblygu dealltwriaeth o ganlyniadau, er bod y Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach mewn rhai meysydd.

**9.** Gwneir cynnydd i gynnwys cymunedau yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae Amcanion Gwella'r Cyngor yn adlewyrchu gwaith ymgynghori cymunedol a gynhaliwyd â phartneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol a chanlyniadau'r arolwg o drigolion a'r cyfarfodydd 'Hear to Listen' (H2L) er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl leol. Mae cynnydd pellach yn dibynnu ar y Cyngor yn datblygu dull mwy cydgysylltiedig. Mae angen hyrwyddo adborth ar effaith gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn ehangach.

**10.** Mae ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn helpu i gael effaith gadarnhaol ar y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'r cyhoedd yn cael y newyddion diweddaraf drwy drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol. Cesglir gwybodaeth ddefnyddiol drwy ymarferion o'r fath, ond ni chaiff ei dadansoddi na'i gwerthuso'n gyson. Mae rhai trefniadau rheoli perfformiad ar waith i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, ond mae angen datblygu fframwaith cadarnach er mwyn dangos ei effaith.

## Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad parhaus i weithio gyda phartneriaid er mwyn cyflawni gwelliannau

**11.** Gwnaed cynnydd da o ran partneriaethau strategol a chydweithio, yn y gymuned a chyda phartneriaid allanol, ar sail gwell dealltwriaeth o ddatblygu canlyniadau a rennir a mwy o ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau o'r fath.

**12.** Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda drwy ei bartneriaethau strategol ffurfiol. Rhoddodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyriaeth i'r Cynllun Gwella Corfforaethol, ac fe gefnogodd datblygu'r Strategaeth Gymunedol. Mae partneriaid yn ymwybodol o flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ac yn eu cefnogi. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu a chydlynu un cynllun gweithredu i reoli a chydgysylltu'r broses o gyflawni camau gweithredu rhyngberthynol ac mae wedi cynnal cyfres o weithdai ar gyfer partneriaid sy'n canolbwyntio ar dair prif flaenoriaeth sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs), materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio alcohol a thrafnidiaeth.

**13.** Mae ymrwymiad parhaus y Cyngor i weithio gydag eraill yn annog cydweithio ar raddfa fawr i lywio ffyrdd newydd o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi cytuno i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol yn llawn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r ddau gyngor o'r farn bod integreiddio gwasanaethau yn rhoi'r capasiti a'r hyblygrwydd iddynt gyflawni gwelliannau wrth wynebu galw parhaus a phwysau o ran adnoddau. Mae Prosiect Eiddilwch Gwent yn bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a chynghorau lleol cyfagos i ailfodelu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi annibyniaeth pobl sy'n agored i niwed a lleihau nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r Cyngor hefyd yn bartner yng Nghonsortiwm Addysg De-Ddwyrain Cymru, sydd â'r nod o integreiddio gwasanaethau gwella addysg ar draws pum awdurdod lleol i gyflawni gwelliannau o ran gwasanaethau ac arbedion costau. Mae partneriaethau allweddol eraill hefyd â chynghorau cyfagos sy'n ymwneud â rheoli gwastraff ac atebion gwyrdd.

14. Fel sawl cyngor arall yng Nghymru, nid yw'r trefniadau ar y cyd ar gyfer sicrhau y caiff cydweithio ei lywodraethu'n dda, sicrhau atebolrwydd gwleidyddol lleol a sicrhau y caiff y costau, y manteision a'r canlyniadau eu gwerthuso'n gadarn ar gyfer dinasyddion yn glir eto ac mae angen eu datblygu ymhellach. Mewn ymateb, mae'r Cyngor newydd greu portffolio gweithredol newydd ar gyfer Trawsnewid Busnes a Phartneriaethau.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran y cynigion ar gyfer gwella a amlygwyd yn Asesiad Gwella 2010

15. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r rhan fwyaf o argymhellion archwilwyr a rheoleiddwyr allanol ac mae wedi sefydlu trefniadau cysylltu effeithiol drwy gynnal cyfarfodydd rheoleiddwyr misol, y mae'r tîm rheoli corfforaethol ac Aelodau Gweithredol yn bresennol ynddynt. Mae'r fforwm hwn yn darparu'r cyfle am drafodaeth parhaol ynglŷn â gwaith arolygu ac archwilio a chynlluniau'r Cyngor i wella. Dangosir y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r cynigion ar gyfer gwella a amlygwyd yn ein Hasesiad Gwella 2010 yn Atodiad 2.

16. Yn ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ym Medi 2010, nodwyd gennym nad oedd y Cyngor wedi sicrhau'r ffocws clir a oedd ei angen i gyflawni graddau a chyflymder y newid a oedd ei angen. Nid oedd dyheadau'r Cyngor wedi'u cefnogi'n glir gan strategaethau i'w cyflawni nac wedi'u trosi'n gyson yn welliannau diriaethol â blaenoriaeth. Pwysleisiwyd gennym fod angen datblygu dull strategol cydlynol o lywio gwelliannau ym mhob rhan o'r Cyngor, a nodwyd yr angen am ddull integredig o gynllunio mewn perthynas â chyllid, pobl ac asedau ffisegol.

17. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd gennym, ac mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mireinio ei ddulliau gweithredu mewn perthynas â gwaith cynllunio corfforaethol ar gyfer gwella, er bod angen cyflawni mwy o waith ar draws gwasanaethau. Mae wedi cytuno ar ddogfen Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ond mae angen iddo wneud mwy o waith i sicrhau mwy o fanylion i ategu'r ddogfen hon. Rhaid i'r gwaith hwn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael ag anghysonderau a gwendidau yn ei ddull o wella, gan gynnwys yr angen i wneud y canlynol:
    - atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng cynlluniau a phrosesau cynllunio amrywiol er mwyn sicrhau bod dulliau cynllunio ariannol, cynllunio staffio a chynllunio adnoddau ffisegol yn rhyng-gysylltiedig ac yn gyson â chyflawni blaenoriaethau;
    - nodi goblygiadau ei gamau gweithredu a lleihau canlyniadau nas bwriadwyd;
    - osgoi dull ar hap o wella drwy fireinio ei flaenoriaethau, dilyn llai o fentrau a chwblhau gwaith a ddechreuir ganddo;
    - gwneud gwell defnydd o dechnoleg i reoli a darparu gwasanaethau a thanategu ffyrdd newydd o weithio.

**18.** Nododd ein Hasesiad Corfforaethol rhagarweiniol ym mis Medi 2010 fod y Cyngor yn cymryd camau i wella'r ffordd y mae'n rheoli pobl ac mae rhai prosesau allweddol yn cael eu hatgyfnerthu. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi parhau i reoli absenoldeb oherwydd salwch, a nodwyd yn flaenoriaeth ganddo, ac mae wedi lleihau absenoldeb oherwydd salwch i lefel sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn y camau olaf o lunio'i gytundeb 'statws sengl' gyda'r Undebau Llafur.

## Nid yw rhai systemau llywodraethu allweddol yn gyson effeithiol o ran herio perfformiad gwael a sicrhau atebolrwydd

**19.** Llywodraethu corfforaethol yw'r fframwaith atebolrwydd, i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, ac o fewn y fframwaith hwnnw mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain ac yn rheoli eu swyddogaethau er mwyn cyflawni eu hamcanion. Caiff effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol effaith sylweddol ar ba mor dda y mae sefydliad yn gweithio tuag at gyflawni ei nodau.

**20.** Yn ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ym Medi 2010, nodwyd bod y systemau ar gyfer rheoli prosiectau, perfformiad a risgiau yn datblygu, ond nad oeddent yn ddigon effeithiol yn gyson eto i hwyluso gwaith cadarn i werthuso cynnydd. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chyflawni gwelliannau, ac ar gyfer rheoli perfformiad a chraffu arno hefyd. Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth â'r prosesau a'r gweithdrefnau hyn ym mhob rhan o'r Cyngor yn anghyson o hyd, ac mae hyn yn tanseilio'u heffeithiolrwydd.

### Mae trefniadau rheoli prosiectau a pherfformiad ar waith ond ni chânt eu defnyddio'n gyson i reoli, herio na gwerthuso perfformiad yn effeithiol

**21.** Un o ddangosyddion allweddol effeithiolrwydd llywodraethu corfforaethol yw'r ffordd y mae cynghorau yn rheoli ac yn gwerthuso eu perfformiad. Mae trefniadau rheoli perfformiad da yn hanfodol er mwyn i awdurdodau gyflawni gwelliannau i wasanaethau, ac mae mesur perfformiad a phennu targedau yn rhan o hynny. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella sut mae'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth i'w helpu i sicrhau bod penderfyniadau pwysig yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddarperir eisoes, pa mor dda y mae'n gweithio, faint mae'n ei gostio a beth arall sydd ei angen. Yn amlwg, mae angen systemau cadarn ar gyfer casglu, cofnodi, monitro a chynhyrchu gwybodaeth am berfformiad i gefnogi gwelliannau o'r fath. Yn eu tro, mae'r systemau hyn yn dibynnu ar brosesau sicrhau ansawdd mewnol cadarn a threfniadau i fonitro, gwerthuso a herio perfformiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae rôl pwyllgorau Craffu yn hollbwysig o fewn y fframwaith hwn.

22. Er bod gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno, ac er iddo ddewis ystod o wybodaeth am berfformiad i gyflwyno adroddiadau arno ac i farnu cynnydd, ceir bylchau yng nghwmpas y wybodaeth am berfformiad. Ar hyn o bryd, prin yw'r defnydd a wneir gan y Cyngor o ddata tueddiadau, meincnodi a gwybodaeth gymharol am berfformiad wrth asesu, dangos neu herio perfformiad o ran cyflawni blaenoriaethau neu yn erbyn amcanion ar gyfer gwella.

23. Mae trefniadau atebolrwydd clir ar waith ar gyfer perfformiad ond nid yw ansawdd adroddiadau ar berfformiad yn cefnogi aelodau, swyddogion na dinasyddion i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau mewn ffordd gyson. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth am berfformiad, ond mae gwendidau o ran sut y caiff y wybodaeth ei chyflwyno yn golygu nad yw bob amser yn bosibl barnu pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio. Mae Swyddogion ac Aelodau yn cydnabod bod Craffu effeithiol yn cael ei lesteirio oherwydd nad yw'r trefniadau adrodd cyfredol yn dwyn ynghyd nac yn cyflwyno digon o wybodaeth fel mater o drefn. Nid yw Aelodau bob amser yn cael y wybodaeth y gofynnir amdani ac felly nid yw tanberfformiad yn cael ei herio mewn ffordd gyson.

24. Mae'r Cyngor wedi dechrau gwneud defnydd effeithiol o'r system rheoli perfformiad gyfrifiadurol i Gymru gyfan, Ffynnon, i helpu i reoli a dangos gwelliannau ar gyfer pobl. Yn ddiweddar mae wedi datblygu fformat 'cerdyn adrodd' o fewn Ffynnon i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad mewn perthynas â Chytundebau Canlyniadau â Llywodraeth Cymru, â'r bwriad o wella perfformiad mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r fformat hwn yn cyflwyno gwybodaeth yn glir, gan nodi faint o weithgarwch a gyflawnwyd gan y Cyngor; pa mor dda y mae wedi cyflawni hynny; a ph'un a oes unrhyw un wedi cael budd o ganlyniad iddo. Mae'r Cyngor yn bwriadu mabwysiadu'r fformat hwn yn ehangach.

25. Mae'n bwysig nid yn unig bod gan y Cyngor wybodaeth am y pethau priodol, ond hefyd bod y wybodaeth honno'n gywir. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu set gadarn o fesuriadau i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn eu herbyn, yn ogystal ag atgyfnerthu'r systemau a ddefnyddir gan wasanaethau i goladu a dilysu gwybodaeth am berfformiad. Gwnaethom archwilio systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei Ddangosyddion Perfformiad (DP) allweddol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn 2011. Canfuwyd bod wyth o'r 38 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno adroddiad ar berfformiad yn eu herbyn, yn cynnwys gwallau sylweddol, a bu'n rhaid cywiro 11 dangosydd am eu bod yn cynnwys gwallau. Mae’r perfformiad yma yn unol â chyfartaledd cynghorau Cymru.

26. Mae'r Cyngor yn dangos rhai cryfderau nodedig o ran trefniadau rheoli prosiect wrth gyflawni cynlluniau cyfalaf mawr. Ond mae lle i wella sut y cyflwynir adroddiadau ar y cynlluniau hyn a sut y creffir arnynt.

27. Mae adfywio economaidd, cymdeithasol a ffisegol yn flaenoriaeth bwysig ym Mlaenau Gwent o hyd. Mae gan y Cyngor hanes da o sicrhau arian cyfalaf allanol ar gyfer cynlluniau mawr a rheoli prosiect y gwaith o gyflwyno'r cynlluniau hynny. Y Gweithfeydd: Glynebwy yw safle'r hen waith dur ar ei newydd wedd. Nod y prosiect uchelgeisiol hwn yw trawsnewid y safle 200 erw yn ardal defnydd cymysg fywiog a nodweddiadol, wedi'i hintegreiddio â chanol y dref ac yn cynnwys ystod o ddulliau adeiladu a dylunio arloesol.

28. Credir bod safle'r Gweithfeydd yn hanfodol o ran adfywio Blaenau Gwent ac mae'n un o'r prosiectau buddsoddi cyfalaf unigol mwyaf a gyflawnir yng Nghymru. Bwriedir buddsoddi dros £170 miliwn o ystod o ffynonellau yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Cyngor ac arian cydgyfeirio gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn brosiect cymhleth sy'n canolbwyntio ar sicrhau adfywio cymdeithasol, economaidd a ffisegol Glynebwy a'r gwasanaethau a dderbynnir gan lawer o ddinasyddion.

29. Ceir trefniadau ariannu cymhleth a phenderfyniadau amlweddog mewn prosiect o'r maint hwn. Mae llinellau atebolrwydd clir a phriodol, wedi'u hategu gan brosesau adrodd cryno a chywir, yn bwysig ar gyfer prosiectau buddsoddi mawr cymhleth er mwyn sicrhau trefniadau llywodraethu da a sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol. Er bod trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer prosiect y Gweithfeydd, canfu ein hadolygiad diweddar o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan y Cyngor i oruchwylio a rheoli'r gwaith o gyflawni prosiect y Gweithfeydd nad yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad bob amser yn gynhwysfawr ac ni chreffir yn effeithiol ar bob agwedd ar y gwaith o gyflawni'r prosiect gan bob Aelod o fewn y Cyngor.

## Datblygwyd systemau newydd i reoli risgiau ond nid ydynt yn ddigon effeithiol i gefnogi gwelliant

30. Mae rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu da i sicrhau bod y Cyngor yn rheoli pethau a allai fel arall effeithio ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ei amcanion. Ar ddechrau 2010 diwygiodd y Cyngor ei strategaeth rheoli risg drwy gyflwyno fframwaith newydd ar gyfer rheoli risg. Ychwanegwyd set o templedau at y strategaeth ar gyfer cofnodi risgiau, ac mae hefyd yn cynnwys matrics asesu risg.

31. Penderfynodd y Cyngor ddefnyddio Ffynnon fel ei gronfa ddata ar gyfer rheoli risg a rheoli perfformiad. Y bwriad yw y bydd y system hon yn awtomeiddio'r broses o lunio adroddiadau chwarterol ar wybodaeth am berfformiad i'r pwyllgorau Craffu. Bwriedir defnyddio'r system hon fel yr unig ystorfa ar gyfer data am berfformiad corfforaethol a risg, a bydd yn darparu ffordd i'r canol corfforaethol fonitro ansawdd a chydymffurfiaeth a sicrhau y cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgorau Craffu.

32. Er bod y Cyngor wedi mabwysiadu Ffynnon yn ddiweddar fel dull o goladu ei risgiau gwasanaeth, mae angen gwneud mwy i fireinio'r data craidd hwn er mwyn llunio cofrestr risg gorfforaethol ystyrlon a phwrpasol. Ceir hefyd anghysondebau o ran dull, a fydd yn effeithio ar gywirdeb y data a gofnodir yn Ffynnon ac ansawdd y wybodaeth y cyflwynir adroddiadau yn ei chylch, gan felly effeithio ar allu'r Cyngor i nodi a rheoli pethau a allai lesteirio gwelliant.

### Mae rôl Craffu yn y trefniadau llywodraethu yn glir ac yn gyffredinol ddealladwy, fodd bynnag mae cyfyngiadau o ran y trefniadau cefnogi ar gyfer Craffu, a rhaglen waith sy'n rhy helaeth, yn cyfyngu ar ei effaith ac yn llesteirio ei effeithiolrwydd

**33.** Mae'r swyddogaeth Graffu yn chwarae rôl hanfodol o ran trefniadau llywodraethu cynghorau. Diben y swyddogaeth graffu yw sicrhau bod y rhwystrau a gwrthbwysau gofynnol ar waith gan ddwyn y sawl sydd â phŵer gweithredol i gyfrif tra ar yr un pryd yn chwarae rôl allweddol yn yr agenda ar gyfer gwella. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi disgwyliadau clir o ran y swyddogaeth Graffu wrth gynllunio ar gyfer gwella a'i werthuso.

**34.** Canfu ein hadolygiad o'r Cyngor fod ei swyddogaeth Graffu yn datblygu ac yn gwella yn y ffordd gywir ond nid yw wedi cyflawni ei photensial llawn hyd yma. Yn gyffredinol mae aelodau a swyddogion yn deall rôl a diben craffu. Ar y cyfan ceir cydberthynas waith adeiladol rhwng y swyddogaeth Graffu a'r Weithrediaeth ac, er bod gwahaniaethau gwleidyddol yn codi, ceir rhai canlyniadau llwyddiannus o adolygiadau Craffu. Mae'r swyddogaeth Graffu wedi helpu i gyflawni rhai gwelliannau i wasanaethau, ac mae defnyddio mwy o graffu cyn gwneud penderfyniadau yn golygu bod aelodau'n cymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau.

**35.** Fodd bynnag, mae effaith gwaith Craffu yn gyfyngedig oherwydd ni chaiff y swyddogaeth Graffu ei defnyddio yn y ffordd gywir bob amser, ac nid yw'r llwyth gwaith nac ansawdd rhywfaint o'r wybodaeth yn rhoi'r cyfle i ddadansoddi materion sy'n ymwneud â pherfformiad yn fanwl. Mae diffyg gwaith ymchwil a chefnogaeth ddadansoddol a chyfleusterau TGCh annigonol yn llesteirio gallu'r swyddogaeth Graffu i fod yn gwbl effeithiol, ond mae trefniadau hyfforddi a datblygu aelodau yn dda iawn. Prin yw ymwneud uniongyrchol y swyddogaeth Graffu â defnyddwyr gwasanaethau i brofi effaith a chanlyniadau.

### Nododd adroddiad Archwilydd Penodedig wendidau o ran y trefniadau sy'n cefnogi penderfyniadau effeithiol ac mae'r Cyngor wrthi'n gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn

**36.** Ym mis Tachwedd 2010, yn dilyn cwyn gan grŵp yr Wrthblaid, adolygodd yr Archwilydd Penodedig y prosesau a'r camau gweithredu a oedd yn sail i ddiswyddo'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes. Er i'r Archwilydd Penodedig ddod i'r casgliad bod penderfyniad y Cyngor i gymeradwyo diswyddo'r Cyfarwyddwr yn rhesymol ac yn gyfreithlon, canfu fod diffygion sylweddol mewn rhai agweddau ar y prosesau a'r camau gweithredu a oedd yn sail i'r penderfyniad. Yn enwedig, ymdriniodd y Cyngor yn wael â'r achos busnes dros ddiswyddo'r Cyfarwyddwr, ac nid oedd yn gallu dangos bod y Cyngor wedi cael gwerth da am arian. Amlygodd yr adolygiad adroddiad yr Archwilydd Penodedig broblemau llywodraethu sylweddol sy'n golygu bod y Cyngor yn parhau i wynebu'r risg o wneud penderfyniadau a allai fod yn afresymol ac yn anghyfreithlon. Hefyd nododd adroddiad yr Archwilydd Penodedig rai meysydd llywodraethu a rheoli ariannol cysylltiedig eraill y mae angen i'r Cyngor eu hatgyfnerthu.

37. Trafodwyd yr adroddiad gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2011. Bu'r Cyngor yn gweithio drwy gynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad ac mae hefyd yn mynd i'r afael â materion eraill a nodwydd ganddo yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011.

## Mae'r gwendidau yn y trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd yn atal y Cyngor rhag gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau

38. Bydd cyflawni gwelliannau o fewn hinsawdd o leihad mewn arian cyhoeddus yn galw am arweinyddiaeth, uchelgais, ac ymrwymiad ar bob lefel, nid dim ond gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Mae angen i aelodau a Swyddogion gydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod fframwaith polisi clir yn cael ei ategu gan gynlluniau sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor drwy dargedu'r adnoddau hynny at gyflawni blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae a wnelo arweinyddiaeth â mwy na gwneud penderfyniadau mawr ar beth y mae'r Cyngor yn ei wneud, Mae hefyd yn ymwneud â sut mae'n gwneud pethau. Mae angen i'r Weithrediaeth roi cyfeiriad clir, ond rhaid i bob gwleidydd a rheolwr gydnabod eu bod yn ddeiliaid swyddi lle gallant ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad sy'n effeithio ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor.

39. Bu newidiadau yn ddiweddar o ran yr arweinwyr gwleidyddol a rheoli yn y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y newidiadau hyn yn cyflawni'r canlynol:

- yn cynyddu'r graddau y mae'n canolbwyntio ar flaenoriaethau;
- yn sicrhau cydymffurfiad cyson â pholisïau, prosesau a gweithdrefnau;
- yn herio perfformiad gwael mewn ffordd gadarnach.

40. Ymddiswyddodd y Prif Weithredwr ym mis Ebrill 2011 ac ar hyn o bryd mae gan y Cyngor Brif Weithredwr interim ar waith, sef y Cyfarwyddwr Adnoddau. Mae tri Chyfarwyddwr arall yn aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Penodwyd dau o'r Cyfarwyddwyr hyn y llynedd. Yn ddiweddar cytunodd y Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cyngor, sy'n gyson â'r Cytundebau Canlyniadau a'r Amcanion ar gyfer Gwella. Mae'r Prif Weithredwr Interim yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau bod ymgysylltu priodol rhwng pob swyddog ac aelod.

41. Ym mis Gorffennaf 2011, nododd Estyn fod y gweinyddiaethau blaenorol wedi osgoi cymryd y penderfyniadau anodd sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â diffygion sylweddol ym maes addysg. Nododd Estyn, er bod y Cyngor o dan y weinyddiaeth bresennol wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd sydd wedi dechrau gosod y sylfeini ar gyfer gwella, nad yw pob aelod etholedig yn cymeradwyo'r dull a ddewiswyd, ac mae rhai yn ei wrthwynebu'n frwd.

42. Cyflwynwyd adroddiad Estyn yn ffurfiol i gyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011. Pleidleisiodd aelodau yn unfrydol i gefnogi cynnig a gyflwynwyd gan yr Arweinydd i gydweithio i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Yna dechreuodd yr Arweinydd drafodaethau â'r grŵp llywodraethu annibynnol a chyda grŵp yr wrthblaid Lafur i ystyried y posibilrwydd o sefydlu trefniadau

trawsbleidiol mwy ffurfiol. Byddai hyn yn cwmpasu meysydd gwasanaeth eraill heblaw addysg, sef meysydd y mae gan y Comisiynwyr Addysg bŵer gweithredol drostynt. Ni lwyddodd ymgais yr Arweinydd. Ym mis Awst 2011, cynhaliwyd cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor i drafod cynnig o ddiffyg hyder yn yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd. Trechwyd y cynnig, ond tanseiliwyd y weinyddiaeth gan newidiadau mewn teyrngarwch ac achos o ochri gyda'r wrthblaid. Llwyddodd yr Arweinydd wedyn i oroesi her gan y grŵp llywodraethu i'w awdurdod a pharhaodd y weinyddiaeth mewn grym.

**43.** Ddechrau mis Hydref, cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod yn bwriadu ymddiswyddo, a threfnwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor i ddewis arweinydd newydd. Ganol mis Hydref etholwyd Arweinydd newydd o blith y Grŵp llywodraethu Annibynnol, sef y cyn-Ddirprwy Arweinydd, ac etholwyd Dirprwy Arweinydd newydd sydd yn cyfuno'i rôl newydd â'r swydd Aelod Gweithredol dros Adnoddau. Wedi hynny cytunodd y grŵp llywodraethu a grŵp yr wrthblaid ar gytundeb ar gyfansoddiad gweinyddiaeth ddiwygiedig. Derbyniodd yr wrthblaid Lafur dair swydd yn y Weithrediaeth, yn cynnwys portffolios newydd ar gyfer Trawsnewid Busnes a Phartneriaethau, ac ar gyfer Llywodraethu, a Chadeiryddiaeth dau Bwyllgor Craffu. Nid yw'r trefniadau hyn wedi'u profi hyd yma.

**44.** Cynhelir yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2012. Mae'n debyg y bydd y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau hyn yn effeithio ar wleidyddiaeth o fewn y Cyngor. Bydd angen i wleidyddion gydweithio i sicrhau nad yw'r etholiadau yn tynnu sylw oddi wrth yr angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau sylweddol.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael blaenorol ond mae rhai agweddau a mathau o ymddygiad yn parhau i lesteirio'r Cyngor

**45.** Mae'r Cyngor wedi wynebu rhai materion gwleidyddol dadleuol dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi cael effaith andwyol ar weithrediad didrafferth y Cyngor ar sawl achlysur. Mae gwleidyddiaeth, o fewn prosesau ffurfiol a'r tu allan iddynt, yn wrthwynebus yn rhy aml; nid yw heriau bob amser yn adeiladol, ac ar adegau maent yn dirywio i fod yn ymosodiadau personol ac yn arwain at gyhoeddusrwydd negyddol. Er y gall dadlau gwleidyddol dilys a chraffu annibynnol fod yn gadarn, ar brydiau, mae plwyfoldeb, dadlau mewnol a thactegau y bwriedir iddynt ddominyddu cyfarfodydd ac atal y Cyngor rhag gweithio wedi amharu ar fusnes y Cyngor. Mae aelodau wedi dod i ddisgwyl a derbyn hyn, ond yn y cyfamser, yn rhy aml, mae perfformiad gwael gwasanaethau wedi parhau heb ei herio ac ni aed i'r afael â'r ffactorau a oedd yn achosi'r perfformiad gwael.

**46.** Dywed rhai aelodau a swyddogion nad yw ymddygiad aelodau yn gwleidyddoli Craffu ac nid yw'n niweidiol i waith Craffu. Ond, er gwaethaf rhai agweddau cadarnhaol ar y trefniadau Craffu, cafwyd enghreifftiau o ymddygiad aflonyddol o fewn pwyllgorau Craffu. Un o effeithiau hyn fu ymestyn hyd pwyllgorau, sy'n golygu nad yw'r pwyllgorau Craffu yn defnyddio amser yn briodol i ganolbwyntio'n llawn ar eu gwaith.

**47.** Mae'r Cyngor yn gweithredu system gabinet gydag Arweinydd, sydd wedi golygu nad yw rhai aelodau yn teimlo eu bod yn chwarae rhan lawn yn y broses wleidyddol, gan waethygu tuedd hirsefydlog i aelodau ymyrryd yn ormodol mewn materion gweithredol. Yn dilyn cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a arweiniodd at wahardd Cynghorydd, dechreuodd y Cyngor adolygiad annibynnol o ymddygiad aelodau. Rhannwyd adroddiad yr adolygiad â'r Prif Swyddogion ym mis Tachwedd 2010 a chyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2011. Er bod y gŵyn i'r Ombwdsmon yn ymwneud ag ymddygiad Aelod penodol, nododd yr adroddiad fod aelodau etholedig yn dueddol o ymyrryd yn ormodol ym manylion rheoli a darparu gwasanaethau, ac amharodrwydd cyffredinol i herio ymddygiad annerbyniol. Canfu awduron yr adroddiad annibynnol wendidau mwy cyffredinol mewn perthynas â: rolau, cyfrifoldebau a chydberthnasau; arweinyddiaeth; rheoli; systemau hyfforddiant, protocolau a gweithdrefnau. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion yn y meysydd hyn, y mae'r Cyngor eisoes wedi gweithredu'r rhan fwyaf ohonynt.

**48.** Ers 2000, cyflwynwyd 25 o gwynion i'r Ombwdsmon â honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Gan osod y record hon yng nghyd-destun Cymru gyfan, nid yw nifer y cwynion yn ormodol, a thros y cyfnod hwn, cafodd y Cyngor y nifer lleiaf o gwynion o'r fath i'r Ombwdsmon o blith cynghorau yng Nghymru. Yn 2010-11, ni chadarnhawyd unrhyw gwynion yn erbyn aelodau a dim ond un achos o gamweinyddu a gadarnhawyd, sef un o'r ffigurau isaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Mae'r Cyngor bellach wedi rhoi protocol lleol ar waith i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad a gymeradwywyd gan yr Ombwdsmon, ac mae'r Cyngor yn benderfynol o fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol ymhlith aelodau.

**49.** Rydym wedi nodi meysydd lle y mae systemau a phrosesau a ddylai gefnogi llywodraethu da a chyflawni gwelliannau yn cael eu llesteirio gan gydymffurfiaeth wael, sy'n arwain at anghysondeb a llai o effeithiolrwydd, er enghraifft, rheoli perfformiad. Mewn rhai achosion, mae swyddogion yn gwrthwynebu craffu a herio dilys, naill ai gan aelodau sy'n atebol yn ddemocrataidd am wasanaethau, neu gan swyddogion eraill sy'n gyfrifol am y systemau rheoli. Mae cydymffurfiaeth anghyson yn arwain at wybodaeth reoli wael, sy'n gwanhau'r broses o wneud penderfyniadau a rheoli perfformiad, a gall olygu nad yw mentrau gwella yn cyflawni eu potensial.

### Er gwaethaf hanes da o reoli'r gyllideb, nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn darparu fframwaith clir ar gyfer cefnogi penderfyniadau yn y dyfodol

**50.** Cytunodd y Cyngor ar gyllideb gytbwys ar gyfer 2011-12 sy'n golygu torri cyllid rhai gwasanaethau; ond ni nodwyd effeithiau'r toriadau hyn. Cytunwyd ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gan y Cyngor llawn, ond mae angen gwneud gwaith pellach i fynd i'r afael â phwysau sylweddol o ran cyfalaf a refeniw ac ymgorffori trefniadau rheoli ariannol tymor canolig yn gorfforaethol.

**51.** Mae gan y Cyngor hanes da o reoli o fewn y cyllidebau a bennir ganddo, er bod rhai achosion o orwario yn 2010-11, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo wneud arbedion gwerth tua £9 miliwn erbyn 2014-15, a disgwylir cyflawni gwerth £3.5 miliwn o hynny yn 2011-12. Wrth bennu cyllideb 2011-12, mae'r Cyngor wedi ceisio diogelu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef gofal cymdeithasol ac addysg, er ei fod yn ceisio gwneud arbedion yn y gwasanaethau hyn hyd yn oed i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

**52.** Mae gan y Cyngor broses sefydledig ar gyfer pennu ei gyllideb ac mae wedi creu gweithgor cyllideb ag aelodaeth sy'n cynnwys gwleidyddion yn bennaf. Fodd bynnag, penderfynodd yr wrthblaid beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau i bennu cyllideb 2011-12, er na wnaethant ei gwrthwynebu'n ffurfiol. Maent bellach wedi dechrau cyfranogi.

**53.** O ran arian cyfalaf, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gyllideb gyfalaf yn lleihau 22 y cant i £4.2 miliwn, sy'n sylweddol llai na'r hyn sydd ei angen, ac mae angen arbed £3.4 miliwn rhwng 2011-12 a 2013-14. Bydd y toriadau a ragwelir yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er enghraifft trafnidiaeth, yr amgylchedd, cynaliadwyedd a grantiau tai, hefyd yn cael effaith sylweddol ond ar hyn o bryd, nid yw goblygiadau'r toriadau hyn i'r Cyngor yn hysbys o hyd.

**54.** Mae toriadau mewn cyllid cyfalaf yn cyflwyno heriau sylweddol i'r Cyngor o ran cyflawni ei gynlluniau ar gyfer moderneiddio adeiladau ysgolion o dan fenter 'Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif'. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ei gynnig i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf ac yn asesu effaith y lleihad yn yr arian sydd ar gael ar ei gynlluniau moderneiddio addysg. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor eisoes wedi sicrhau ffynonellau cyllid allanol eraill ac wrthi'n codi adeiladau addysgol mawr ar safle'r Gweithfeydd, mae ei gynlluniau moderneiddio yn llai dibynnol ar arian menter 'Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif' na llawer o gynghorau eraill yng Nghymru.

**55.** Yn ddiweddar mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n nodi ei ofynion a ragwelir o ran adnoddau yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn sefydlu fframwaith eang ar gyfer cynllunio ariannol yn y dyfodol ond mae'n cynnwys nifer o wendidau sylweddol.

**56.** Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r pwysau posibl o ran costau yn y dyfodol o fewn gwasanaethau ac yn rhagweld yn gyffredinol y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y Cyngor neu bydd rhaid iddo ail ddyrannu gwariant refeniw cyfredol gwerth rhwng £3.5 miliwn a £5 miliwn er mwyn talu'r costau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys unrhyw sôn am sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r pwysau hwn. Nid oes gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig unrhyw gynllun gweithredu sy'n dangos sut yr eir i'r afael â diffygion a ragwelir na sut y rheolir pwysau ar wasanaethau wrth fynd ymlaen. Heb y lefel hon o fanylder, nid yw'r Cyngor yn gallu nodi'n glir na chynllunio sut y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol a wynebir ganddo.

**57.** Nid yw'r Strategaeth wedi'i phrif ffrydio o fewn y trefniadau ariannol ar gyfer y Cyngor cyfan. Nid yw'r Strategaeth wedi'i hategu gan gynllun hirdymor manwl sy'n adlewyrchu risgiau, cyfleoedd ac effaith bosibl trawsnewid ac ailfodelu. Er enghraifft, er ei bod yn cyfeirio at bartneriaeth a chydweithio, nid yw'n nodi manylion yr effaith ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor.

**58.** Ceir diffyg manylion hefyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mewn nifer o feysydd allweddol eraill naill ai o fewn y ddogfen neu fel gwybodaeth ategol. Er enghraifft, prin iawn yw'r wybodaeth a geir am gostau unedau, costau gweithgareddau, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i danategu'r broses o wneud penderfyniadau. Yn yr un modd, nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu safonau gwasanaeth, lle bod safonau o'r fath yn bodoli, yn sgîl y toriadau i'r gyllideb. Nid oes unrhyw gyfeiriad at risgiau sy'n deillio o'r toriadau i'r gyllideb, er gwaethaf y ffaith bod y strategaeth yn nodi bod angen rheoli pob cyfle sy'n peri risg yn weithredol.

**59.** Prin hefyd yw'r wybodaeth yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig am wariant cyfalaf, ac mae ond yn canolbwyntio ar ddyraniad cyfalaf y Cyngor ei hun. Gan fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau adnoddau sylweddol, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru a'r undeb Ewropeaidd, o ganlyniad dim ond rhan o'r darlun o wariant cyfalaf cyfredol y mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ei rhoi, ac nid yw'n nodi'r heriau a wynebir gan y Cyngor wrth fynd ymlaen yn glir. Drwy beidio â chynnwys y wybodaeth gynhwysfawr hon am wariant, nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn darparu fframwaith clir i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol.

**60.** Er mwyn mantoli'r gyllideb yn y dyfodol, bydd angen i'r Cyngor leihau maint ei weithlu a newid y gweithlu hwnnw. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi dileu tua 75 o swyddi. Cyflawnwyd y lleihad hwn heb orfod diswyddo'n orfodol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddileu swyddi gwag a diswyddo gwirfoddol. Er bod hyn wedi lleihau maint gweithlu a bil cyflogau'r Cyngor yn gyflym, gallai arwain at ganlyniadau nas bwriedir drwy leihau adnoddau yn anghymesur mewn rhai gwasanaethau yn fwy nag eraill. Yn wir, ni phennwyd effaith y lleihad hwn yn nifer y staff ar wasanaethau'r Cyngor.

# Atodiad 1

## Yr Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, (y Mesur). Fel sy'n ofynnol, caiff ei anfon at Weinidogion Cymru hefyd.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, o ganlyniad i raddfa a chyflymder angenrheidiol y gwelliannau, nid yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.**

Daethom i'r casgliad hwn am fod ein gwaith archwilio ac asesu wedi canfod y canlynol:

- Mae Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef 'Cynllun Gwella Corfforaethol 2008 - 2012', Adolygiad Cam 1 2011/12' yn bodloni gofynion y Mesur. Mae fersiwn Cymraeg ar gael, lluniodd y Cyngor gynllun cryno a rhoddodd gyhoeddusrwydd i'r Amcanion Gwella yn ei gylchlythyr i ddinasyddion. Dylai'r Cyngor ystyried cynnwys gwybodaeth am weithgareddau gwella mewn meysydd nas cwmpaswyd gan yr Amcanion Gwella, gan gynnwys arbedion a dadfuddsoddiadau arfaethedig, os yw'r rhain yn effeithio ar wasanaethau ar gyfer dinasyddion.
- Mae'r Cyngor wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer dethol y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad presennol, ymgynghoriad cyhoeddus a'r adnoddau sydd ar gael. Mae ei ddeg Amcan Gwella yn adlewyrchu'r pedair blaenoriaeth gyffredinol allweddol a nodir yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2008-2012 sydd, yn eu tro, yn cysylltu â'r Strategaeth Gymunedol a ddatblygwyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae camau'n cael eu cymryd i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a'r cynlluniau gwasanaeth unigol. Ceir disgrifiad o weithgarwch ymgynghori ond nid yw'r Cynllun yn nodi sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig Amcanion Gwella newydd yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor ynghyd â mesurau llwyddiant a disgrifiad o berfformiad presennol lle y bo ar gael. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ei ddangosyddion perfformiad presennol yn ei alluogi i fesur ei effaith ar ddinasyddion yn gyson, ac mae wedi gwneud peth cynnydd o ran datblygu mesurau a systemau ategol newydd ers pennu ei Amcanion Gwella cyntaf yn ystod hydref 2010. Dylai parhau â'r cynnydd hwn gefnogi gwaith hunanasesu a'r broses o lunio adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn erbyn yr Amcanion Gwella hyn ym mis Hydref 2011 ac ar ôl hynny.

- Mae'r Cyngor wedi datblygu fformatau adrodd clir o fewn system rheoli perfformiad Ffynnon ac mae wedi dechrau gwella'r wybodaeth am berfformiad o fewn y systemau hyn. Mae cynlluniau gweithredu manwl yn ategu pob Amcan Gwella, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys o fewn dogfen y Cynllun ac mae'r graddau y mae Amcanion Gwella i'w gweld yn amlwg mewn cynlluniau gwasanaeth yn amrywio. Er mwyn gallu asesu ei berfformiad yn gywir a chyflwyno adroddiadau cywir ar y perfformiad hwnnw, mae angen i'r Cyngor ddangos yn fwy clir sut mae camau gweithredu arfaethedig yn cyfrannu at ganlyniadau, datblygu mwy o fesurau o ganlyniadau yn ei holl weithgareddau, casglu data llinell sylfaen ar berfformiad presennol yn gyson, nodi safonau gofynnol a safonau dymunol, pennu targedau perfformiad blynyddol a sicrhau fod y gweithgareddau hyn yn cael eu monitro a bod adroddiadau amdanyn nhw'n cael eu creu o fewn y system rheoli perfformiad sefydledig. Dylai gyhoeddi'r wybodaeth hon yn ei Adroddiad blynyddol ar Berfformiad.
- Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae gwendidau hirsefydlog o ran sut y caiff y Cyngor ei redeg yn golygu bod y rhagolygon ar gyfer gwelliant sylweddol a pharhaus yn wael. Nodir y rhesymau dros y casgliad hwn yn Asesiad Corfforaethol Llawn Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno Adroddiad yr Asesiad Gwella yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae ein cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau y cytunwyd arnynt. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried ymateb yr Archwilydd Cyffredinol i ymgynghoriad yr awdurdodau gwella ar ei gynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2011-12. Yn enwedig, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried faint y gallwn ddibynnu ar brosesau hunanasesu'r Cyngor (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor). Byddwn yn ymdrin â hyn yn Adroddiad yr Asesiad Gwella lle y byddwn hefyd yn nodi casgliadau o feysydd o'n cynllun gwaith blynyddol nad ydym wedi eu cwblhau eto, yn ogystal â gwaith rheoleiddwyr eraill.

Rydym yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiwn weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Yn enwedig, dymunwn gofnodi ein gwerthfawrogiad o ymateb cadarnhaol iawn y Cyngor i'r galwadau ychwanegol a osodwyd arno, sydd wedi ein helpu i gywasgu ein rhaglen waith arfaethedig a gwneud gwaith maes ychwanegol er mwyn ymateb i gais y Gweinidog Llywodraeth Leol am arolygiad manylach o drefniadau corfforaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus wrth gefnogi'r Cyngor i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

# Atodiad 2

## Cynnydd o ran y cynigion ar gyfer gwella o Asesiad Gwella 2010

### Gwybodaeth ychwanegol am gynnydd o ran y cynigion a wnaed yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010 ac Adroddiad Gwella Blynyddol Ionawr 2011

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Datblygu blaenoriaethau clir sy'n cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor, a gefnogir gan fframwaith strategol, yn cynnwys strategaethau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol tymor canolig, cynllunio'r gweithlu, TGCh a rheoli asedau | Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo strategaeth ariannol tymor canolig newydd a strategaeth TGCh newydd.<br>Datblygwyd drafft aeddfed o strategaeth Rheoli Asedau, a bwriedir ei chyflwyno i'r pwyllgorau Craffu ym mis Tachwedd ac i'r Weithrediaeth ym mis Rhagfyr.<br>Cynhelir adolygiad o'r blaenoriaethau o ran cynllunio'r gweithlu ar hyn o bryd.<br>Mae'r Cyngor wedi creu portffolio Gweithredol newydd ar gyfer Trawsnewid Busnes a Phartneriaethau |
| 2. Sicrhau bod y Cynllun Gwella Corfforaethol yn adeiladu ar y rhan a chwaraeir gan y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y broses o bennu blaenoriaethau a sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweinyddiaeth gymunedol i reoli disgwyliadau dinasyddion yng nghyd-destun llai o arian cyhoeddus | Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r Cynllun Gwella Corfforaethol sy'n cynnwys 11 Amcan Gwella'r Cyngor.<br>Cyflwynir cynigion i sefydlu panel Dinasyddion mewn cydweithrediad â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r pwyllgorau Craffu ym mis Tachwedd, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. |
| 3. Datblygu dull o herio gwerth am arian a chynaliadwyedd patrymau a dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau ym mhob gwasanaeth a'i gymhwyso'n gyson | Mae angen gwneud gwaith i werthuso'r dulliau gweithredu a brofwyd cyn eu cymhwyso'n ehangach.<br>Mae'r Cyngor wedi creu portffolio Gweithredol newydd ar gyfer Trawsnewid Busnes a Phartneriaethau |
| 4. Hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod ei swyddogaethau'n gwella'n barhaus | Barnwyd nad oedd angen cynnal adolygiad ffurfiol o rôl Archwilio yn unol â gofynion y Mesur llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael gwybodaeth am ddatblygiad cam 2 y Cynllun Gwella Corfforaethol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, yn ogystal â chynnydd yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella yn yr Adroddiad ar Asesiad Gwella 2011. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 5. Paratoi'r Cod Llywodraethu, gan nodi egwyddorion a threfniadau llywodraethu'r Cyngor, a ddylai fod wedi bod ar waith ar 1 Ebrill 2010, ar fyrder | Mae'r Cyngor wedi drafftio a chymeradwyo'r Cod Llywodraethu. |
| 6. Cyhoeddi ei Amcanion Gwella yn gynharach yn y dyfodol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru | Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella ar gyfer 2011 ym mis Mai 2011, yn unol â'r gofynion. Ychwanegwyd Amcan Gwella pellach yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn ysgolion ym mis Hydref 2011. |
| 7. Nodi sut y bydd y gwelliannau a nodir yn ei amcanion o fudd i ddinasyddion, a sicrhau y gellir eu cyflawni yng nghyd-destun llai o adnoddau | Mae'r Cyngor wedi mireinio ei Amcanion Gwella er mwyn diffinio'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer dinasyddion yn gliriach. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad i nodi pa faterion sydd bwysicaf i ddinasyddion, ac mae wedi defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad i lywio ei flaenoriaethau a'i gynlluniau. |
| 8. Datblygu mesurau llwyddiant wedi'u hategu gan wybodaeth am berfformiad y Cyngor ar hyn o bryd, ei dargedau, dadansoddiad o gostau a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill | Mae'r Cyngor wedi datblygu rhai mesurau newydd ac mae wrthi'n datblygu mesurau eraill, yn ogystal â dulliau casglu data. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Weithrediaeth a'r Pwyllgorau Craffu ar y mesurau sy'n bodoli eisoes. |
| 9. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn | Hyd yma nid yw'r Cyngor wedi nodi safonau gwasanaeth gofynnol ond mae wedi gwneud gwaith i gael gwell dealltwriaeth o effaith y cynigion o ran arbedion fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb mewn perthynas â darparu gwasanaethau. |
| 10. Cymhwyso'r dull o bennu Amcanion Gwella, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar yr amrywiaeth llawn o swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor | Mae'r dull sydd â'r nod o fesur effaith gadarnhaol gwasanaethau'r Cyngor ar y gymuned yn cael ei fabwysiadu ar draws meysydd gwasanaeth. Nodwyd a hyfforddwyd swyddogion, cwblhawyd archwiliad o'r gwaith y maent wedi'i gyflawni o fewn eu meysydd gwasanaeth, a threfnwyd cyfres o sesiynau hyfforddi pellach ar gyfer swyddogion eraill ynghyd â sesiynau gloywi. |

.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk